# Uned 10: Deall Cynhyrchu Organig Amaethyddol

**Côd yr Uned:** M/600/9130

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno s i ddysgwyr y sgiliau a’r wybodaeth y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu organig amaethyddol, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion cynhyrchu organig. Byddant yn ystyried sut mae arferion organig yn effeithio ar iechyd pridd, cnydau, anifeiliaid a'r amgylchedd ac yn cymhwyso dulliau organig yng nghyd-destun cnydau.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn cael cyfle i adolygu'r egwyddorion arweiniol sy'n ffurfio sail ffermio organig, ac ystyried yr arferion mae ffermwyr yn eu mabwysiadu er mwyn glynu at yr egwyddorion hyn. Mae'r uned yn cynnwys datblygiad ffermio organig dros amser, gan gyfeirio'n benodol at rai o bobl a sefydliadau allweddol y ganrif hon a'r ganrif ddiwethaf. Defnyddir y term 'organig' yn gyffredinol yng nghyd-destun yr uned hon, fel y gellir ystyried athroniaethau cyflenwol megis amaethyddiaeth fiodynamig.

Trwy gydol yr uned, bydd y dysgwyr yn arsylwi ac yn myfyrio ar sut mae dulliau ffermio organig yn effeithio ar iechyd pridd, anifeiliaid a'r amgylchedd, a sut maent yn wahanol i reoli a dulliau ffermio anorganig. Bydd y dysgwyr yn cael cyfle i fod yn rhan ymarferol o fenter ffermio organig ynghyd ag ymweliadau, sgyrsiau a thrafodaethau.

Wedi cwblhau'r uned hon, bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall egwyddorion ffermio organig, ac yn gallu cymhwyso'r hyn maent wedi'i ddysgu mewn cyd-destun galwedigaethol i fenter ffermio organig.

## Deilliannau dysgu

Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:

1 Wybod am ddatblygiad arferion ffermio organig

2 Deall sut i reoli pridd gan ddefnyddio egwyddorion organig

3 Gallu defnyddio dulliau organig wrth gynhyrchu cnydau

4 Gallu defnyddio dulliau organig wrth gynhyrchu da byw.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod am ddatblygiad arferion ffermio organig

*Cefndir hanesyddol:* cynhyrchu bwyd cyn y chwyldro diwydiannol ee dulliau ffermio, lleiniau/system 3 chae, braenaru, cylchdroi 4 cwrs Norfolk; wedi'r chwyldro diwydiannol ee Deddfau Cau Tiroedd, dulliau dwys, cemegion, ffermio diwydiannol, cynnydd mewn poblogaeth, cynnydd mewn cynhyrchu oherwydd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail; pobl allweddol ee Stapledon, Steiner, Rusch, Lady Balfour, Sykes; cynaliadwyedd ee Datganiad y Cenhedloedd Unedig 1987; datblygiad safonau organig; paramaethu; trosi

*Sefydliadau:* rôl adrannau'r Llywodraeth ee Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Gogledd Iwerddon (DARDNI), Llywodraeth Cynulliad Cymru; Cymdeithas y Pridd; Cysylltu'r Amgylchedd a Ffermio (LEAF); Yr Undeb Ewropeaidd; sefydliadau perthnasol eraill ee Cymdeithas Ymchwil Henry Doubleday (HDRA), Ffermwyr a Thyfwyr Organig (OFG), Ymchwil Rothamsted, Y Ganolfan Ymchwil Organig -Elm Farm, Y Gymdeithas Amaethyddol Fiodynamig (BDAA), Ffederasiwn Rhyngwladol Symudiadau Amaethyddol Organig (IFOAM); cost aelodaeth neu danysgrifio i gyrff ardystio organig.

## 2 Deall sut i reoli pridd gan ddefnyddio egwyddorion organig

*Prosesau'r pridd:* priodoleddau a mathau o bridd; strwythur; micro-organebau ee bacteria, ffyngau; macro-organebau ee mwydod/pryfed genwair, nematodau; priodoleddau cemegol ee pH, catïonau, anionau, gallu cyfnewid; erydiad pridd; priodoleddau biolegol ee cylchred nitrogen, cylchred carbon; sefydlogiad nitrogen biolegol, mycorhisa; mater organig; hwmws

*Ffrwythlondeb tir:* ffrwythlondeb naturiol ee elfennau hanfodol, maetholion planhigion; gwrteithiau ee gwrtaith gwyrdd, gwrtaith anifeiliaid, ymddatod pridd; trwytholchi; compost; cylchdroi cnydau ee codlysiau; deddfwriaeth amgylcheddol gyfredol ee tymhorau caeëdig ar gyfer taenu gwrtaith organig; cyfyngiadau cyfredol ynghylch defnyddio mewnbynnau allanol ee gwrteithiau mwynau hydoddedd isel

## 3 Gallu defnyddio dulliau organig wrth gynhyrchu cnydau

*Rheoli pridd:* proses drosi ee gwaddodion gwrtaith a phlaleiddiad; diraddiad pridd; systemau amaethu, amseriad plannu cnydau; rheoli braenaru; systemau di-stoc; problemau posib ee trwytholchi nitradau ar ôl aredig glaswelltir llawn codlysiau

*Cylchdroi cnydau:* rhesymau dros gylchdroi cnydau; y dewis o gnydau ac arallgyfeirio; dulliau rheoli chwyn ee amaethu mecanyddol, amseriad, cysgod, cystadleuaeth cnydau, tomwelltu, chwynnu â llaw; problemau posib wrth reoli chwyn ee rheolaeth anghyflawn, amharu ar adar sy'n nythu ar y ddaear; rheoli plâu a chlefydau ee gwrthsafiad a goddefiad cyltifar, rheoli biolegol, ysglyfaethwyr naturiol, banciau chwilod, plaleiddiaid a ganiateir; problemau posib wrth reoli plâu a chlefydau ee defnydd amhriodol o gyfryngau rheoli biolegol, methiant gwrthsafiad cyltifar genyn unigol; iechyd a diogelwch; cyfarpar amddiffyn personol (PPE)

*Gofynion ansawdd:* cyflawni'r safonau marchnad ar gyfer cnydau organig

## 4 Gallu defnyddio dulliau organig wrth gynhyrchu da byw

*Rheoli da byw:* y dewis o dda byw ee gwartheg, defaid, moch, dofednod, eraill; dethol brîd; lles a deddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol; systemau pori; cymarebau stocio; defnydd o godlysiau; problemau posib; marchnadoedd ee gofynion ansawdd; bridio ee systemau caeëdig, paru, diddwyno; rôl da byw a gwrtaith wrth gylchdroi cnydau; iechyd a diogelwch; milheintiau; bioddiogeledd; cyfarpar amddiffyn personol (PPE)

*Iechyd:* rheoli ataliol; rôl meddyginiaeth filfeddygol a chyfyngiadau defnydd; rheoli pori er mwyn rheoli parasitiaid; cynlluniau iechyd; homeopathegau; lles anifeiliaid

*Maeth a phorthiant:* cnydau a ganiateir ee ar gyfer pori, porthi; sgîl-gynnyrch; defnydd cartref; cyfraddau cynnwys cyfredol a ganiateir ar gyfer bwydydd anifeiliaid

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 disgrifio datblygiad arferion ffermio organig [YA] | | |
| Ll2 rhestru'r prif sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol | T1 disgrifio dylanwad sefydliadau organig ar ddulliau ffermio organig | Rh1 gwerthuso dylanwad sefydliadau organig ar ddulliau ffermio organig |
| Ll3 egluro'r ffactorau sy'n bwysig wrth gynnal a chadw pridd iach mewn cyd-destun organig | | |
| Ll4 nodi'r ffactorau sy'n cynyddu ffrwythlondeb pridd | T2 trafod, gan ddefnyddio enghreifftiau, sut mae cnydio wedi bod o fudd i ffrwythlondeb pridd ar fferm organig | Rh2 trafod, gan ddefnyddio enghraifft briodol, sut gallai fferm drosi'n llwyr neu'n rhannol i gynhyrchu organig |
| Ll5 cynllunio rheoli pridd gan ddefnyddio egwyddorion organig [MC, CE] | | |
| Ll6 paratoi cylchdroi cnydau sy'n defnyddio dulliau organig ar safle a ddewiswyd [DM, GT] | | |
| Ll7 disgrifio sut caiff anifeiliaid eu rheoli mewn systemau cynhyrchu organig | T3 gwerthuso, gan ddefnyddio enghraifft briodol, farchnata'r cynnyrch da byw ar fferm organig | Rh3 gwneud argymhellion ar gyfer un fenter da byw i drosi i gynhyrchu organig |
| Ll8 nodi ffynonellau porthiant addas ar gyfer da byw organig a ddewiswyd | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau â lleoliadau addas a bydd cysylltiadau â lleoliadau profiad gwaith.

Bydd angen i'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon sefydlu cysylltiadau cryf gyda mentrau ffermio organig lleol, ni waeth pa faint. Mae'n bosib bydd nifer cyfyngedig o ffermydd, felly mae'n hanfodol bod tiwtoriaid yn sefydlu cysylltiadau cyn i'r dysgwyr ddechrau ar eu rhaglen. Lle cynhelir ymweliadau â mentrau da byw organig, dylid cymryd rhagofalon bioddiogeledd addas i gyfyngu'r posibilrwydd o ledaenu clefydau i dda byw.

Dylid hefyd annog y dysgwyr i sefydlu cysylltiadau gyda ffermydd organig eu hunain fel y gallant brofi dulliau rheoli fferm organig yn uniongyrchol. Lle bydd y dysgwyr o gefndir anorganig, fel y byddai'n debygol ar gyfer y mwyafrif, dylai'r tiwtoriaid sicrhau bod fferm anorganig addas ar gael at ddibenion cymharu, yn enwedig lle gallai fod yn addas ar gyfer gwaith astudiaeth achos.

Rhaid pwysleisio materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gweithio gyda pheiriannau, cnydau a da byw a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd, a rhaid cyflawni asesiadau risg cyn unrhyw weithgarwch ymarferol a chyn i'r dysgwyr ymweld ag unrhyw eiddo cynhyrchu organig. Rhaid i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o filheintiau posib a rhaid iddynt gael mynediad i gyfleusterau hylendid personol priodol, yn enwedig lle gellid dod ar draws da byw neu fermin.  Wrth gyflawni tasgau ymarferol, rhaid i'r dysgwyr wisgo cyfarpar amddiffyn personol (PPE) priodol a glynu at systemau gweithio diogel.

Mae deilliant dysgu 1 yn cyflwyno cysyniadau ffermio organig, a rhaid eu cyflwyno ar ddechrau'r uned. Dylai gynnwys y bobl amrywiol sydd wedi dylanwadu ar fethodoleg ffermio organig a'i datblygu dros y blynyddoedd.

Mae deilliant dysgu 2 yn cyflwyno rheoli ffermio organig ac yn debygol o gael ei gyflwyno ar ôl deilliant dysgu 1. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn profi mentrau organig gwahanol. Dylai'r cyflwyno gynnwys teithiau cerdded i arsylwi cnydau fferm arferol, ymweliadau a siaradwyr gwadd er mwyn i ddysgwyr arsylwi a thrafod athroniaeth rheoli pridd.

Gellid uno cyflwyno deilliant dysgu 3 gyda deilliannau dysgu 1, 2 a 4. Bydd angen i'r dysgwyr fod wedi gweld a phrofi rheoli cnydau organig o ddechrau'r uned hon, a fyddai'n gyffredinol yn golygu tymor yr hydref. Fodd bynnag, fel dewis amgen, gellid cyflwyno'r deilliant dysgu hwn yn y gwanwyn i gyd-fynd â thymor hau y gwanwyn a thyfiant cnydau.

Mae deilliant dysgu 4 yn gallu cael ei uno â'r deilliannau dysgu eraill. Bydd angen i'r dysgwyr brofi cylch ddigwyddiadau'r flwyddyn, er enghraifft lle ceir buchesau organig, dylai'r dysgwyr arsylwi a phrofi camau cynhyrchu megis lloia, triniaethau iechyd, godro, dulliau atgenhedlu, porthi a phori. Yn achos cynhyrchu defaid organig, mae angen i'r tiwtoriaid amlygu'r hanfodion cynhyrchu allweddol megis wyna, iechyd a maeth

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr** arferol gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Cyflwyniad i'r uned a throsolwg o'r uned |
| **Aseiniad 1: Cyflwyniad i Ffermio Organig** (Ll1, Ll2, T1, Rh1).<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiynau ymarferol: teithiau cerdded ar fferm organig, sgwrs gan ffermwr organig |
| Sesiynau theori: dulliau ffermio dros yr oesoedd, y Chwyldro Diwydiannol a chynnydd mewn poblogaeth, datblygiad amaethyddiaeth ddiwydiannol a gwyddoniaeth. |
| Sesiwn theori: pobl allweddol yn y symudiad organig, athroniaeth ffermio organig, ffermio biodynamig, rôl sefydliadau organig. |
| **Aseiniad 2: Rheoli'r Pridd** (Ll3, Ll4, Ll5, T2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiynau ymarferol: teithiau cerdded ar fferm, ymweliadau, technegau gwrtaith gwyrdd |
| Sesiwn theori: cyfansoddion a phrosesau pridd, organebau pridd, sylwedd organig |
| Sesiwn theori: ffrwythlondeb pridd, gwrtaith, rheoli cnydau |
| **Aseiniad 3: Cynhyrchu Cnydau** (Ll6, Rh2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiynau ymarferol: teithiau cerdded cnydau, ymweliadau, sgyrsiau |
| Sesiwn theori: cylchdroi, dewis cnydau, trosi i ddulliau organig |
| Sesiwn theori: dulliau sefydlu cnydau, iechyd cnydau, dulliau rheoli |
| **Aseiniad 4: Cynhyrchu Da Byw** (Ll7, Ll8, T3, Rh3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiynau ymarferol: ymweliadau, sgwrs gan filfeddyg am driniaethau a ganiateir i dda byw, gwaith ymarferol ar fferm |
| Sesiwn theori: dewis anifeiliaid, system fridio, pori, marchnata cynnyrch |
| Sesiwn theori: iechyd anifeiliaid, meddyginiaeth ataliol, homeopathi |
| Sesiwn theori: maeth, cnydau cartref |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Gellid cywain tystiolaeth ar gyfer yr uned hon o ffynonellau amrywiol. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod unrhyw dasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Gallai lleoliadau gwaith ar fentrau organig fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyfleoedd asesu ar gyfer dysgwyr. Dylid monitro lleoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd.

Gallai peth tystiolaeth ar gyfer yr uned hon ddod o waith grŵp, gwaith ymarferol neu drafodaeth o dan arweiniad. Os defnyddir y methodolegau hyn, yna bydd angen tystiolaeth o gyfraniad pob dysgwr unigol, o bosib drwy arsylwadau'r aseswr (Ceir enghreifftiau o arsylwadau addas aseswr a datganiadau tystion ar wefan Edexcel, www.edexcel.com).

I gyflawni gradd llwyddo, rhaid i'r dysgwyr fodloni'r wyth maen prawf a restrir yn y grid meini prawf asesu a graddio.

Ar gyfer Ll1, mae angen i'r dysgwyr ddangos sut mae ffermio organig yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n raddol fel dewis amgen i ddulliau eraill o ffermio sy'n dibynnu ar fewnbwn artiffisial. Bydd disgwyl i'r dysgwyr nodi, fel enghreifftiau, bobl allweddol a fu'n amlwg wrth ddatblygu dulliau ffermio organig, yn enwedig ers yr Ail Ryfel Byd.

Ar gyfer Ll2, mae angen i'r dysgwyr nodi'r sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol amrywiol sydd wedi bod, ac sydd yn, allweddol wrth hybu ffermio biodynamig ac organig. Gellid cysylltu gyda Ll1, a gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf tabl. Ar gyfer Ll3, disgwylir i'r dysgwyr ystyried pwysigrwydd pridd wrth ffermio'n organig. Bydd angen i'w hesboniadau gynnwys rôl sylwedd organig a rhyngweithio organebau pridd megis malurysorion. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad yn seiliedig ar ymchwil annibynnol a gweithgareddau ymarferol. Mae Ll4 yn dilyn yn rhesymegol o Ll3, a gellid uno'r ddau faen prawf wrth eu hasesu. Byddai angen i'r dysgwyr gael profiad ymarferol o gnydio ar fferm organig er mwyn gwerthfawrogi pwysigrwydd rheoli pridd. Gallai cymharu â fferm anorganig fod yn fuddiol. Mae Ll5 yn caniatáu i ddysgwyr roi ar waith rai o'r egwyddorion a astudiwyd ar gyfer rheoli pridd, gan fod yn rhan o'r astudiaeth achos neu wrth gynllunio dulliau rheoli pridd organig. Ar gyfer Ll6, gallai astudiaeth achos o fferm organig ffurfio sail asesiad. Fel arall, gellid defnyddio enghraifft o fferm anorganig yn trosi i ddulliau organig. Ar gyfer Ll7, mae angen i'r dysgwyr astudio rheoli da byw ar fferm organig. Gellid defnyddio fferm anorganig yn trosi i gynhyrchu da byw organig, wedi i'r dysgwyr astudio dulliau cynhyrchu da byw organig. Gallai Ll8 uno ag Ll6 i ffurfio astudiaeth achos ddefnyddiol. Dylai'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer un dosbarth da byw o leiaf.

I gyflawni gradd teilyngdod, dylai'r dysgwyr fodloni'r holl feini prawf llwyddo a'r tri maen prawf teilyngdod.

Ar gyfer T1, bydd angen i'r dysgwyr drafod yr ystod o sefydliadau sydd wedi bod, ac sydd yn, gysylltiedig â ffermio organig. Ar gyfer T2, bydd angen i'r dysgwyr drafod, wedi ymchwil ac arsylwi/gweithgaredd ymarferol, effaith y cnydau ar ffrwythlondeb pridd a'r cysylltiad rhwng dulliau megis gwrtaith da byw, ysgogi codlysiau, gwrteithio gwyrdd a chompostio. Ar gyfer T3, bydd y dysgwyr yn gwerthuso, gan ddefnyddio enghraifft briodol, farchnata'r cynnyrch da byw ar fferm organig. Gallai hyn fod yn rhan o astudiaeth achos ar fenter da byw organig.

I gyflawni gradd rhagoriaeth, dylai'r dysgwyr fodloni'r holl feini prawf llwyddo a theilyngdod a'r tri maen prawf rhagoriaeth.

Ar gyfer Rh1, mae angen i'r dysgwyr ymchwilio i rôl y prif sefydliadau sy'n rhan o ffermio organig. Bydd angen i'r dysgwyr arddangos sgiliau gwerthuso wrth drafod dylanwad o leiaf ddau sefydliad, er mwyn gwahaniaethu'r dystiolaeth o'r hyn a gynhyrchwyd ar gyfer T1. Os dymuna'r dysgwyr astudio dylanwadau unigolion arwyddocaol, er enghraifft y Foneddiges Eve Balfour, bydd angen iddynt arddangos sut mae'r unigolion hyn wedi dylanwadu ar sefydliadau ac, yn eu tro, sut mae sefydliadau yn dylanwadu ar gynhyrchu organig.  Ar gyfer Rh2, gallai'r dysgwyr gymryd fferm anorganig ar gyfer astudiaeth achos a thrafod ei throsi i ddulliau organig. Gallai Rh3 uno â Rh2 neu sefyll ar ei ben ei hun.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, T1, Rh1 | Cyflwyniad i Ffermio Organig | Disgrifio datblygiad cynhyrchu organig, a dangos sut mae sefydliadau amrywiol yn dylanwadu ar ffermio organig. Gellid cyfeirio at bobl allweddol. | Ymchwil annibynnol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig.<br>Arsylwi ymarferol. |
| Ll6, Rh2 | Cylchdroi Cnydau ar Fferm Organig | Paratoi cylchdroi cnydio priodol ar fferm sy'n paratoi i newid i gynhyrchu organig, gan ddefnyddio cnydau y gellir eu defnyddio i'w gwerthu, ar gyfer da byw ac i gynnal a chadw ffrwythlondeb pridd. | Arsylwi ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig |
| Ll7, Ll8, T3, Rh3 | Cynhyrchu Da Byw | Dethol menter da byw a disgrifio sut caiff ei rheoli ar gyfer fferm organig. Bydd angen i'r fenter dyfu’r rhan fwyaf o’i phorthiant ar gyfer y da byw ar y fferm.<br>Cynllunio'r trosi o reoli da byw ar fferm anorganig i'w rheoli ar fferm organig. | Arsylwi ymarferol ac astudiaeth achos.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Sefydlu Cnydau |
| Lefel 3 |
| Cynorthwyo wrth Gynhyrchu Cnydau Amaethyddol |
| **Lefel 3** |
| Elfen AgC9.1 Paratoi a monitro safleoedd ar gyfer amaethu<br>Elfen AgC9.2 Amaethu safleoedd ar gyfer plannu cnydau<br>Elfen AgC10.1 Monitro a chynnal a chadw tyfiant iach cnydau helaeth<br>Elfen AgC10.2 Lleihau'r risg i gnydau gan blâu, clefydau ac afiechydon<br>Elfen AgC11.1 Paratoi offer plannu<br>Elfen AgC11.2 Plannu a sefydlu cnydau helaeth<br>Elfen AgC12.1 Cynnal a chadw a rheoli gweithrediadau cynaeafu<br>Elfen AgC12.2 Paratoi cnydau a gynaeafir |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Planhigion |
| Deall Egwyddorion Gwyddor Pridd |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i fentrau ffermio organig gyda chnydau a da byw. Gallant fod ar yr un fferm neu ar ffermydd gwahanol. Bydd cludiant i fentrau ffermio yn hanfodol, ynghyd â chyfarpar amddiffyn personol (PPE), mynediad i gyfleusterau hylendid personol a dillad gweithio glân ac addas.

Rhaid i'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon feddu ar gymhwyster amaethyddol addas. Bydd angen iddynt sefydlu cyswllt gyda ffermydd organig yn yr ardal, lle gall y dysgwyr arsylwi ac, yn ddelfrydol, gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol wrth astudio. Dylai'r tiwtoriaid hefyd feddu ar wybodaeth weithio dda am y sector organig ynghyd â thystiolaeth o ddiweddaru technegol. Dylid creu cysylltiadau â ffermydd anorganig fel bod y dysgwyr yn gallu gwneud cymariaethau addas â rheoli a dulliau ffermio organig.

Bydd ar y dysgwyr angen mynediad i adnoddau llyfrgell a rhyngrwyd addas ynghylch cynhyrchu amaethyddol organig.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar reoli a dulliau ffermio organig, felly bydd angen i'r tiwtoriaid sefydlu cysylltiadau ag amrediad o fentrau ffermio organig lleol fel bod y dysgwyr yn cael profi amrywiaeth mor eang o fethodoleg ac athroniaeth organig â phosib. Dylid annog y dysgwyr i edrych am unrhyw gyfleoedd profiad gwaith ar ffermydd organig. Gallai rhai mentrau fod yn gwerthu cynnyrch organig yn unig, ond, pa sefyllfa bynnag a ddewisir, bydd y dysgwyr yn profi'r athroniaeth y tu ôl i dduliau ffermio organig.

# Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Balfour E B – *The Living Soil* (Universe Books,1976) ISBN 087663269X

Blake F – *Organic Farming and Growing: A Guide to Management, 3ydd Argraffiad*
(The Crowood Press, 1994) ISBN 1852238380

Conford P – *The origins of the organic movement* (Floris Books, 2001) ISBN 0863153364

Davies B, Eagle D a Finney F – *Soil* (Farming Press, 2002) ISBN 0852365594

DEFRA – *Fertiliser Recommendations for Agricultural and Horticultural Crops, 8fed Argraffiad*
(The Stationery Office Books, 2008) ISBN 0112430589

Finch H, Samuel A, Lockhart J a Wiseman A – *Lockhart and Wiseman's Introduction to Crop Husbandry: Including Grasslands, 7fed Argraffiad* (Butterworth-Heinemann, 1993) ISBN 0080420028

Forbes J a Watson D – *Plants in Agriculture* (Cambridge University Press, 1992) ISBN 0521427916

Lampkin N – *Organic Farming, 2il Argraffiad* (Old Pond Publishing, 2002) ISBN 1903366291

Meier U – *Growth Stages of Plants* (Blackwell Science, 1997) ISBN 3826331524

Nix J – *Farm Management Pocketbook* (The Andersons Centre, 2009) ISBN 0954120159

Pretty J, – *Regenerating Agriculture* (Earthscan publications,1995) ISBN 853831980

Raymond F a Waltham R – *Forage Conservation and Feeding, 5ed Argraffiad* (Farming Press, 2002)
ISBN 0852363508

Sattler F a Wistinghausen E – *Bio Dynamic Farming Practice* (Biodynamic Agricultural Association, 1992)
ISBN 0951897608

Soffe R – T*he Agricultural Notebook, 20fed Argraffiad* (Blackwell Science, 2003) ISBN 0632058293
Thear K – Organic Poultry (Broad Leys Publishing, 2005) ISBN 0906137365

Witney B – *Choosing and Using Farm Machines* (Land Technology, 1995) ISBN 0952559609

Youme D, Wilkinson J a Younie D – *Organic Livestock Farming* (Chalcombe Publications, 2001)
ISBN 0948617454

### Cyfnodolion

*The British Grassland Society*

*Farmers Guardian*

*Farmers Weekly*

*Grassland Science*

*Journal of Soil and Water Conservation*

*Smallholder*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.cat.org.uk | Canolfan y Dechnoleg Amgen |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.environment-agency.org.uk | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| www.fwi.co.uk | Farmers Weekly Interactive |
| www.leaf.org.uk | Cysylltu'r Amgylchedd a Ffermio |
| www.organicfarmers.org.uk | Ffermwyr a Thyfwyr Organig |
| www.rbi.co.uk | Reed Business Information |
| www.riverford.co.uk | Riverford Organic |
| www.soilassociation.org | Cymdeithas y Pridd |
| www.wwoof.org.uk | Cyfleoedd Byd-eang ar Ffermydd Organig |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i ddatblygiad ffermio organig |
| **Meddylwyr creadigol** | cynllunio ar gyfer trosi organig |
| **Dysgwyr myfyriol** | datblygu dulliau ffermio cynaliadwy |
| **Gweithwyr tîm** | rhan o astudiaethau achos |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | rhan o weithgareddau ymarferol a thrafodaethau |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cyflawni ymchwil annibynnol |
| **Dysgwyr myfyriol** | ymweld â ffermydd organig ac yn ymwneud yn weithredol â ffermio organig |
| **Gweithwyr tîm** | cyflawni gwaith astudiaeth achos |
| **Hunan-reolwyr** | llunio cysylltiadau â mentrau organig lleol |